GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
(LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD - YR WYDDGRUG)
(GORFODAETH SIFIL A CHYFUNO)
(DIWYGIAD 1)
2016

Steve Jones
Prif Swyddog
(Strydlun a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NF

GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
(LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD - YR WYDDGRUG)
(GORFODAETH SIFIL A CHYFUNO)
(DIWYGIAD RHIF 1) 2016

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adrannau 32, 33, 35, 35C a Rhan IV Atodlen 9 o'r Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2016 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Mannau Parcio oddi ar y Stryd – Yr Wyddgrug) (Gorfodaeth Sifil a Chyfuno) (Diwygiad Rhif 1) 2016.

2. Mae GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD – YR WYDDGRUG) (GORFODAETH SIFIL A CHYFUNO) (DIWYGIAD RHIF 1) 20--, yn atodol at y canlynol, ac yn diwygio GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD – YR WYDDGRUG) (GORFODAETH SIFIL A CHYFUNO) 2015 ("y Gorchymyn Gwreiddiol")

3. Ac eithrio fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn Diwygio, mae'r Gorchymyn Gwreiddiol yn parhau mewn grym ac effaith lawn.

4. Mae natur cyffredinol ac effaith y diwygiad fel a ganlyn:-
   (a) Gweithredu lefelau'r taliadau am barcio ceir yn yr Wyddgrug, a darpariaethau eraill sydd wedi eu cynnwys ynddo. Amlinellir manylion y ffioedd yn Atodlen 1
   (b) Cyflwyno system Trwyddedau. Mae'r manylion wedi'u nodi yn Atodlen 2
   (c) Diwygio'r Atodlen sy'n ymwneud â Love Lane, Yr Wyddgrug, Stryd Newydd, Yr Wyddgrug a Neuadd y Dref, yr Wyddgrug yng, a'i darllen fel y nodir yn Atodlen 2 ac 3 i'r Gorchymyn hwn
   (d) Bod y darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn hwn yn cael eu cynnwys yn y Gorchymyn Gwreiddiol
   (e) Bydd y diffiniad o " cerbyd " yn y Gorchymyn Gwreiddiol bellach ddarllen " cerbyd " yn cynnwys unrhyw gar modur neu feic modur.

5. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer y dehongliad ar y gorchymyn hwn.

6. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y, ac at yr Atodlen i'r, Gorchymyn hwn.

7. Bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at unrhyw ddeddfiad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at y deddfiad hwnnw fel y'i diwygiwyd, gweithredwyd, cyfunwyd, ail-ddeddfwyd trwy, neu sy'n cael effaith yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad dilynol.

RHAN 1

CYFFREDINOL

Mae'r darpariaethau a ganlyn i'w cynnwys yn y Gorchymyn Gwreiddiol;

Dehongliad

2. Ystyr "Cerbydau Masnachol Ysgafn" yw cerbyd sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu ar gyfer defnydd, ar gyfer cludo nwyddau neu faich o unrhyw ddisgrifiad, ac iddo uchafswm màs nad yw'n fwy na 3.5 tunnell ac nad yw'n tynnu trelar.

Ystyr "Cerbyd Teithwyr" yw cerbyd modur (ac eithrio beiciau modur neu gerbyd pobl anabl) a adeiladwyd neu a addaswyd yn benodol i gludo dim mwy na 12 o deithwyr (heb gynnwys y gyrrwr) a'u heffeithiau a pheidio tynnu trelar.

Mae 'Cerbyd Amaethyddol' yn golygu cerbyd neu gerbyd sy'n tynnu trelar ar gyfer cludo da byw.

RHAN 3

ADLEOLI, SYMUD A GWAREDU CERBYDAU

22.a Ni chaiff unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn yr effaith o wahardd neu Gyfyngu ar fynediad i unrhyw Fan Parcio i Gerbydau Brys neu osod unrhyw dâl ar Gerbydau o'r fath ar gyfer defnydd o Fan Parcio.

RHAN 6

TALIADAU AM BARCIO

42. Pryd bynnag y bydd cerbyd yn meddiannu unrhyw le parcio yn ystod yr oriau cyfyngedig ar gyfer y lle parcio hwnnw a bennir yng ngholofn 7 o Atodlen 1 a 3, bydd y gyrrwr yn gwneud y fath daliad neu'n arddangos bathodyn trwydded neu docyn o'r math a bennir yng ngholofn 9 o Atodlen 1 ac Atodlen 3, yn y fath fodd a ddarperir yn y Gorchymyn hwn.

43. Yn syth ar ôl parcio yn gyntaf, bydd Gyrrwr y Cerbyd, oni bai y nodir yn wahanol gan berson a awdurdodir yn briodol gan y Cyngor, yn unrhyw un o'r Mannau Parcio y cyfeirir atynt yn Atodlen 1 ac Atodlen 3, yn talu'r ffi briodol yn unol â'r raddfa daliadau benodedig yn Atodlen 1 ac Atodlen 3, ac yn arddangos tocyn dilys yn y cerbyd ar ei ffenestr flaen, fel ei fod yn hawdd i'w ddarllen o'r tu allan i'r cerbyd, oni bai bod y gyrrwr yn ddeiliad ac yn arddangos trwydded ddilys.

44. Y tu allan i'r dyddiau a'r oriau y mae'r ffioedd a nodir yng ngholofn 7 Atodlen 1 ac Atodlen 3 yn berthnasol iddynt, ond o fewn oriau agor y maes parcio a nodir yng ngholofn 6 Atodlen 1 ac Atodlen 3, gall y dosbarthiadau cerbyd a bennir yng ngholofn 3 Atodlen 1 ac Atodlen 3 barcio yn y mannau parcio yn rhad ac am ddim, heb arddangos unrhyw drwydded neu ddyfais arall, ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill y gorchymyn hwn.

RHAN 7

TRWYDDEDAU

Trwyddedau Rhatach

45. Gall y Cyngor gyhoeddi neu drefnu i gyhoeddi trwyddedau am ddim sy'n caniatáu i gerbydau aros mewn Mannau Parcio y cyfeirir atynt yng ngholofn 2 ac raddfa

daliadau y cyfeirir atynt yng ngholofn 8 yn Atodlen 2 yn y Gorchymyn hwn, ond yn ddibynnol ar amodau defnyddio a chymhwyster a nodir yn y darpariaethau yn Erthygl 47 (a) - (h).

Trwyddedau

46. Gall person, ar ôl gwneud cais i'r Cyngor, brynu trwydded, yn caniatáu cerbydau i aros mewn lleoedd parcio, am gyfnod ac am y tâl, y cyfeirir ato yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, yn amodol ar y darpariaethau yn Erthygl 47 (a) - (h).

Amodau Defnyddio

47. Rhaid defnyddio trwydded ratach neu drwydded yn unol â'r darpariaethau canlynol:

(a) Rhaid arddangos y drwydded ratach neu'r drwydded y tu mewn i ffenestr flaen y cerbyd fel bod y manylion a ddangosir bob amser i'w gweld yn glir o'r tu allan i'r cerbyd;

(b) Ni fydd y drwydded ratach neu'r drwydded yn rhoi hawl i yrrwr y cerbyd i gadw Llain Barcio unigol ac eithrio Trwyddedau A a B a G yn Atodlen 2. Os cyfyngir ar ei defnydd i Fannau Parcio penodol, bydd ond yn cael ei ddefnyddio yn unol â chyfyngiad o'r fath;

(c) Ni chaiff unrhyw un newid y wybodaeth a roddir ar y drwydded ratach neu'r drwydded, neu arddangos trwydded ratach neu drwydded yn fwriadol ar gerbyd sydd wedi cael ei newid, difwyno, anffurfio neu yr ychwanegwyd ati neu y mae'r ffigurau neu'r manylion arni wedi mynd yn annarllenadwy;

(d) Bydd y drwydded ratach neu'r drwydded ond yn ddilys ar gyfer y Man Parcio ac yn ystod y cyfnod y mae'n cael ei gyhoeddi ac ni fydd modd ei drosglwyddo i unrhyw Fan Parcio arall;

(e) Bydd cerbyd sy'n arddangos trwydded ratach neu drwydded sydd wedi dod i ben, yn amodol ar y cyfyngiadau arferol a'r Erthyglau y cyfeirir atynt yn y Gorchymyn hwn;

(f) Bydd dyraniad ac argaeledd y drwydded ratach neu'r drwydded yn ôl disgresiwn y Cyngor ac ar delerau y bydd y Cyngor yn eu dyfarnu o bryd i'w gilydd;

(g) Mewn achos lle bydd unrhyw Berchennog yn gofyn am drwydded ratach neu drwydded newydd ar ôl ei cholli neu ei dinistrio bydd modd gwneud cais i'r Cyngor a bydd unrhyw amnewid o'r fath yn cael ei weithredu a bernir i unrhyw drwydded ratach neu drwydded a gyhoeddwyd yn flaenorol i Berchennog o'r fath gael ei diddymu neu ei hildio a'i bod yn ddieffaith;

(h) Bydd hawl gan y Cyngor i derfynu pob hawl a roddwyd pan gyhoeddwyd unrhyw drwydded ratach neu drwydded neu docyn neu ildiad a brynwyd ymlaen llaw os bydd Perchennog y drwydded neu'r tocyn neu'r ildiad a brynwyd ymlaen llaw yn mynd yn groes i'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Gorchymyn hwn ac mewn unrhyw amgylchiadau o'r fath ni fydd gan y Perchennog yr hawl i unrhyw ad-daliad o gwbl heb leihau effaith unrhyw hawl arall i weithredu y gallai fod gan y Cyngor naill ai o dan y Gorchymyn hwn neu fel arall.

Gosodwyd dan
SÊL GYFFREDIN)
CYNGOR SIR Y FFLINT)
at hyn ar y 25fed diwrnod hwn o Hydref)
2016 yng ngŵydd:-)

16030

CADEIRYDD

UWCH GYFREITHIWR / PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU

ATODLEN 1

Enw'r Man Parcio 1	Dosbarthiad y Man Parcio 2	Dosbarth Cerbyd 3	Safle lle y gallai Cerbyd Aros 4	Diwrnodau Gweithredu Mannau Parcio 5	Oriau Gweithredu Mannau Parcio 6	Dyddiau ac Oriau y mae'r taliadau'n berthnasol 7	Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros 8	Graddfa Prisiau 9
Maes Parcio Aml-lawr, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 8	Talu ac arddangos.	Cerbydau, Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau ysgafn a Cerbydau Masnachol ysgafn, a beiciau modur	Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio.	Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol	24 awr	8.00a.m. i 5.00p.m. Dydd Llun i ddydd Sadwrn	24 awr	20 ceiniog hyd at 2 awr 50 ceiniog hyd at ddiwrnod llawn
Maes Parcio Plas Llwynegrin, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug Fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 8	Talu ac arddangos.	Cerbydau, Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau ysgafn a Cerbydau Masnachol ysgafn, a beiciau modur	Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio.	Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol	24 awr.	8.00a.m. i 5.00p.m. Dydd Llun i ddydd Sadwrn	2 awr (ac ni chaiff unrhyw gerbyd ddychwelyd o fewn 1 awr)	20 ceiniog hyd at 2 awr
Maes Parcio'r Brif Fynedfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. Fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 10	Talu ac arddangos.	Cerbydau, Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau ysgafn a Cerbydau Masnachol ysgafn, a beiciau modur	Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio.	Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol	24 awr	8.00a.m. i 5.00p.m. Dydd Llun i ddydd Sadwrn	24 awr	20 ceiniog hyd at 2 awr 50 ceiniog hyd at ddiwrnod llawn

ATODLEN 2

Math o Drwydded 1	Enw'r Lle Parcio y mae'n ddilys ynddo 2	Dosbarth Cerbyd 3	Safle lle y gallai Cerbyd Aros 4	Diwrnodau Gweithredu Mannau Parcio 5	Oriau Gweithredu Mannau Parcio 6	Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros 7	Graddfa Prisiau 8
A – Llain Ddynodedig	Maes Parcio'r Brif Fynedfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 10	Cerbydau, Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau ysgafn a Cerbydau Masnachol ysgafn, a beiciau modur	Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio, a nodwyd gyda theitl swydd gweithiwr a "Deiliad Trwyddedau yn unig A"	Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol	24 awr	24 awr	Deiliad trwydded barcio A £300 y flwyddyn
B - Cadeirydd, Is-gadeirydd, Arweinydd a Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir y Fflint	Maes Parcio'r Brif Fynedfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 10	Cerbydau, Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau ysgafn a Cerbydau Masnachol ysgafn, a beiciau modur	Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio, a nodwyd gyda theitl swydd cynghorwyr a "Deiliad Trwyddedau yn Unig B"	Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol	24 awr	24 awr	Deiliad Trwydded Barcio B £12 y flwyddyn yn unig
C – Trwydded Aelodau	Prif Faes Parcio, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 8 Maes Parcio Aml-lawr, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 8 Maes Parcio'r Brif Fynedfa, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 10	Cerbydau, Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau ysgafn a Cerbydau Masnachol ysgafn, a beiciau modur	Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio, a nodwyd gyda "Deiliad Trwyddedau yn Unig C"	Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol	24 awr	24 awr	Deiliad Trwydded Barcio C £12 y flwyddyn yn unig

ATODLEN 2 (parhad)

Math o Drwydded 1	Enw'r Lle Parcio y mae'n ddilys ynddo 2	Dosbarth Cerbyd 3	Safle lle y gallai Cerbyd Aros 4	Diwrnodau Gweithredu Mannau Parcio 5	Oriau Gweithredu Mannau Parcio 6	Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros 7	Graddfa Prisiau 8
D - Trwyddedau Blynyddol	Maes Parcio Aml-lawr, Fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 8	Cerbydau, Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau ysgafn a Cerbydau Masnachol ysgafn, a beiciau modur	Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio, a nodwyd gyda "Deiliad Trwyddedau yn Unig D"	Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol	24 awr	24 awr	Deiliad Trwydded Barcio D £100 y flwyddyn yn unig
E - Trwydded Staff	Prif Faes Parcio, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 8 Maes Parcio Aml-lawr, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 8 Maes Parcio Theatr Clwyd, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 9 Lleiniau parcio Ffordd Wasanaethu 3, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 10.	Cerbydau, Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau ysgafn a Cerbydau Masnachol ysgafn, a beiciau modur	Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio, a nodwyd gyda "Deiliad Trwyddedau yn Unig E"	Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol	24 awr	24 awr	Deiliaid trwydded barcio E £12 y flwyddyn yn unig

ATODLEN 2 (Parhad)

Math o Drwydded 1	Enw'r Lle Parcio y mae'n ddilys ynddo 2	Dosbarth Cerbyd 3	Safle lle y gallai Cerbyd Aros 4	Diwrnodau Gweithredu Mannau Parcio 5	Oriau Gweithredu Mannau Parcio 6	Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros 7	Graddfa Prisiau 8
F - Cerbydau sy'n Eiddo neu'n cael eu Llogi gan Gyngor Sir y Fflint	Prif Faes Parcio, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 8 Lleiniau parcio Ffordd Wasanaethu 3, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 10.	Cerbydau, Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau ysgafn a Cerbydau Masnachol ysgafn, a beiciau modur	Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio, a nodwyd gyda "Deiliad Trwyddedau yn Unig F"	Dydd Llun i ddydd Sadwrn yn gynhwysol	24 awr	24 awr	Deiliaid trwydded F barcio ratach yn unig
G - Neuadd y Dref, yr Wyddgrug	Maes Parcio Neuadd y Dref, yr Wyddgrug fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 7 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn.	Cerbydau, Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau ysgafn a Cerbydau Masnachol ysgafn, a beiciau modur	Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. a nodwyd gyda "Deiliad Trwyddedau yn Unig G"	Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol	24 awr	24 awr	Deiliad Trwydded Barcio £300 y flwyddyn yn unig

ATODLEN 3

Enw'r Man Parcio 1	Dosbarthiad y Man Parcio 2	Dosbarth Cerbyd 3	Safle lle y gallai Cerbyd Aros 4	Diwrnodau Gweithredu Mannau Parcio 5	Oriau Gweithredu Mannau Parcio 6	Dyddiau ac Oriau y mae'r taliadau'n berthnasol 7	Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros 8	Graddfa Prisiau 9
Love Lane, Yr Wyddgrug, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 4 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn.	Talu ac arddangos.	Cerbydau, Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau ysgafn a Cerbydau Masnachol ysgafn, Cerbyd Amaethyddol a beiciau modur	Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio.	Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol	24 awr	8.00a.m. i 5.00p.m. Dydd Llun i ddydd Sadwrn	24 awr	50 ceiniog, trwy'r dydd
Arhosiad Byr, Stryd Newydd, yr Wyddgrug fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn yn yr ardal a ddangosir ag ymyl goch ar Gynllun 6, ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn.	Talu ac arddangos.	Cerbydau, Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau ysgafn a Cerbydau Masnachol ysgafn, a beiciau modur	Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. Ardaloedd parcio arhosiad hir ac arhosiad byr dynodedig ag arwyddion	Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol	24 awr	8.00a.m. i 5.00p.m. Dydd Llun i ddydd Sadwrn	3 awr. (Dim dychwelyd o fewn 1 awr)	50 ceiniog am hyd at 3 awr

ATODLEN 3 (Parhad)

Enw'r Man Parcio 1	Dosbarthiad y Man Parcio 2	Dosbarth Cerbyd 3	Safle lle y gallai Cerbyd Aros 4	Diwrnodau Gweithredu Mannau Parcio 5	Oriau Gweithredu Mannau Parcio 6	Dyddiau ac Oriau y mae'r taliadau'n berthnasol 7	Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros 8	Graddfa Prisiau 9
Arhosiad Hir, Stryd Newydd, yr Wyddgrug fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn yn yr ardal a ddangosir ag ymyl goch ar Gynllun 6, ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn.	Talu ac arddangos.	Cerbydau, Cerbydau Teithwyr, Cerbydau Nwyddau ysgafn a Cerbydau Masnachol ysgafn, a beiciau modur	Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. Ardaloedd parcio arhosiad hir ac arhosiad byr dynodedig ag arwyddion	Dydd Llun i ddydd Sul yn gynhwysol	24 awr	8.00a.m. i 5.00p.m. Dydd Llun i ddydd Sadwrn	24 awr	50 ceiniog am hyd at 3 awr 80 ceiniog am hyd at 4 awr £1.00 trwy'r dydd